Gwybodaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru

Awst 2017
Yn y rhifyn hwn:

- Damweiniau ar y Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu 2016
- Tynnu Trelars yn Ddiogel
- Y DVLA yn Galw am Greadigrwydd
- 20 Mlynedd o EuroNCAP
- Annog Gyrru'n Ddiogel
- One Fateful Day
- Canlyniadau Gwregysau Diogelwch Cymru Gyfan
- Cruz Cymru 2017
- Pryder Cymunedol
- Arweiniad i Feddygon
- Canllaw O'r Drws i'r Ddesg

Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar:
Facebook a Twitter

Lluniwyd gan:
Ann Horton, Rospa
02920 250 600
ahorton@rospa.com

Nid yw Diogelwch Ffyrdd Cymru'n gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

Damweiniau ar y Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn 2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau'r Adroddiad Blynyddol ar Ddamweiniau ar y Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn 2016. Yn 2016, roedd 4,921 o ddamweiniau ar y ffyrdd a arweiniodd at anafiadau personol a gofnodwyd gan yr heddlu, a oedd yn ostyngiad o 622 ar 2015 (gostyngiad o 11%).

Arweiniodd y damweiniau hyn a gofnodwyd at 6,853 o bobl yn cael eu hanafu, a oedd 829 yn llai nag yn 2015.

Roedd y 6,853 o bobl a anafwyd yn cynnwys:

- 103 o bobl wedi cael eu lladd ar ffyrdd Cymru, a oedd 2 yn llai nag yn 2015.
- 1,005 o bobl wedi cael eu hanafu'n ddifrifol, a oedd 76 yn llai (7 y cant yn llai) nag yn 2015.
- 5,745 o bobl wedi cael eu hanafu ychydig bach, a oedd 751 yn llai (12 y cant yn llai) nag yn 2015.

Cewch hyd i'r Bwletin yma

Tynnu Trelars yn Ddiogel

Gyda gwyliau'r haf yn ei anterth, mae'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn annog gyrwyr i wneud yn siŵr bod eu trelars, eu carafanau a'u faniau ceffylau yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Lansiwyd ymgyrch #TowSafe4Freddie y DVSA ym mis Tachwedd y llynedd, ac mae wedi bod yn galw ar yrwyr sy'n defnyddio trelars i gyflawni gwiriadau sylfaenol yn dilyn marwolaeth drasig y bachgen 3 blwydd oed, Freddie Hussey. Roedd Freddie yn cerdded gyda'i fam yn Bedminster, Bryste, pan ddaeth trelar dwy dunnell yn rhydd oddi wrth Land Rover. Aeth y trelar ar ben y cwrbyn cyn taro Freddie. Canfu'r ymchwiliad i farwolaeth Freddie fod lifer brêc llaw'r trelar yn y man anghywir. Mae rhieni Freddie yn annog pob gyrrwr i gyflawni gwiriadau diogelwch sylfaenol bob tro y maen nhw'n tynnu trelar, i osgoi unrhyw drasiedïau eraill.

Mae'r arweiniad yn cynnwys gwybodaeth bwysig am wirio:

- y bêl tynnu a'r cysylltiadau
- yr olwynion a'r teiars
- y goleuadau a'r cyfeirwyr
- terfynau llwythi a phwysau

Mae'r rheolau ynghylch beth y gallwch ei dynnu yn wahanol gan ddibynnu pryd y gwnaethoch basio eich prawf gyrru, a bydd angen i lawer o bobl basio prawf ymarferol ychwanegol.

I gael mwy o wybodaeth ar sut i sicrhau bod eich cerbyd a'ch trelar yn ddiogel ac yn gyfreithlon, ewch i https://www.gov.uk/guidance/tow-a-trailer-with-a-car-safety-checks

DVLA yn Galw ar Ddisgyblion i fod yn Greadigol

Mae disgyblion ysgolion cynradd ledled Cymru yn cael eu herio i ennill offer TG o'r radd flaenaf, gwerth hyd at £3,000, i'w defnyddio yn eu hysgol, trwy ddylunio gêm gyfrifiadurol.

Mae'r gystadleuaeth, 'DVLA Code Challenge', wedi cael ei hanelu at blant ysgol gynradd, rhwng 7 ac 11 oed, yng Nghymru. Gwahoddir timau o hyd at bump o blant o ysgolion a chlybiau cod yn y gymuned, i arddangos eu sgiliau rhaglennu, trwy ddylunio gêm gyfrifiadurol o'r newydd yn seiliedig ar un o bedair o themâu a bennir gan noddwyr y digwyddiad. Bydd yr her yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm, yn ogystal â gwella eu gwybodaeth am raglennu cyfrifiadurol mewn ffordd hwyl ac arloesol.

Caiff ei redeg mewn cydweithrediad â'r DVLA, Code Club, Hwb Llysgenhadon STEM Cymru, Incredible Oceans, Brake, Diogelwch Ffyrdd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub, pedwar o heddluoedd Cymru a Milwyr Wrth Gefn y Fyddin, ac mae'n un o nifer o fentrau gwirfoddol sy'n cael eu rhedeg gan y DVLA i ymgysylltu pobl ifanc â thechnoleg. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 6 Hydref.

I ddarganfod mwy am y gystadleuaeth, ewch i DVLA Code Challenge

Euro NCAP yn Dathlu 20 Mlynedd o Brofi

Mae mwy na 78,000 o fywydau wedi cael eu hachub ers lansio profion diogelwch gwrthdrawiadau caled Euro NCAP 20 mlynedd yn ôl. Mae Euro NCAP wedi datgelu ei fod wedi cyhoeddi dros 630 o sgorau diogelwch, wedi cynnal profion gwrthdrawiadau ar oddeutu 1,800 o geir, ac wedi gwario cyfanswm o 160 miliwn Ewro i wneud ceir yn fwy diogel.

Fe wnaeth y profion cyntaf ddangos methiannau diogelwch yn y ceir mwyaf poblogaidd i deuluoedd, a wnaeth orfodi ailfeddwl sylfaenol o ran y ffordd yr oedd cerbydau'n cael eu dylunio i atal damweiniau ac achub bywydau. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae gan 9 o bob 10 car sy'n cael ei werthu ar y farchnad Ewropeaidd sgôr Euro NCAP ac mae'r diwydiant moduron yn cynorthwyo datblygu gofynion newydd ar gyfer y sgorau diogelwch uchaf.

Heddiw, mae canlyniadau profion gwrthdrawiadau ar ddau gar i deuluoedd, a adeiladwyd 20 mlynedd ar wahân, yn tanlinellu'r datblygiadau enfawr mewn diogelwch cerbydau er 1997. Mae technolegau diogelwch nad oedd yn bodoli neu a oedd yn ddewisol – fel bagiau aer i'r gyrrwr a'r teithwyr, bagiau aer diogelwch ochr, negeseuon atgoffa am wregysau a rheolaeth sefydlogrwydd electronig – bellach yn safonol ar bob car sy'n cael ei werthu yn Ewrop.

Gallwch weld fideo yn amlygu'r gwahaniaethau, a'r datblygiadau mewn technoleg diogelwch yma.

One Fateful Day

Mae'r Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau (FTA) wedi cynhyrchu ffilm sy'n 'ysgogi'r meddwl', wedi'i dylunio i amlygu pwysigrwydd diogelwch a chydymffurfio o ran gweithrediadau â fan. Mae 'One Fateful Day' yn adrodd stori gyrrwr fan gwryw, y tynnwyd ei sylw trwy ddefnyddio ei ffôn symudol i siarad â'i swyddfa. Hefyd, canfu wedyn ei fod wedi bod yn cymryd cyffuriau a'i fod yn gyrru cerbyd diffygiol - ac mae'r cyfan wedi arwain at 'ganlyniadau trychinebus' i'r gyrrwr, y rheolwr gweithrediadau a pherchennog y cwmni.

Mark Cartwright, pennaeth faniau a cherbydau masnachol ysgafn yr FTA, feddyliodd am gynhyrchu'r ffilm, a dywedodd fod y stori yn dangos rhai o'r methiannau nodweddiadol a welir ymhlith gweithredwyr faniau. Dywedodd, "Roeddwn i eisiau creu rhywbeth a fyddai'n gyfarwydd ac yn cyseinio. Mae'r stori'n dangos rhai o'r methiannau nodweddiadol ymhlith gweithredwyr faniau sy'n meddwl eu bod nhw'n cydymffurfio ond sydd ond yn dweud hynny. Mae cerbydau nwyddau trwm yn cael eu rheoleiddio'n llym, ond llawer yn rhy aml, mae gweithrediadau faniau yn cael eu hesgeuluso, gan gyfaddawdu diogelwch a rhoi'r gyrwyr a'r cyhoedd mewn perygl."

Gallwch weld clipiau o'r ffilm ar sianel YouTube yr FTA, a gallwch lawrlwytho'r ffilm gyfan yn rhad ac am ddim trwy'r wefan Van Excellence. Mae'r FTA yn annog aelodau i'w rhannu mor eang â phosibl i ledaenu negeseuon diogelwch faniau

Cynllun i Annog Gyrwyr i Yrru'n Ddiogel



Mae ymgyrch ar y cyd yn ardal Penrhosgarnedd yng Ngwynedd yn annog modurwyr i yrru'n synhwyrol a pharchu staff patrôl croesfan ysgol, sy'n gweithio i sicrhau y gall disgyblion ysgol gerdded i'r ysgol ac o'r ysgol yn ddiogel.

Yn dilyn pryderon ynghylch agweddau rhai modurwyr at staff patrôl croesfan ysgol, fe wnaeth tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Gwynedd a swyddogion Heddlu Gogledd Cymru fonitro'r sefyllfa, a phenderfynwyd y dylai swyddog patrôl croesfan yr ysgol sy'n cynorthwyo disgyblion Y Garnedd i groesi'r ffordd i'r ysgol, wisgo camera corff. Bydd hyn yn galluogi staff gwasanaeth trafnidiaeth y Cyngor i fonitro'r sefyllfa a chyfeirio unrhyw dystiolaeth o yrru anghyfrifol at yr heddlu, os bydd angen.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar faterion trafnidiaeth: "Mae'r mwyafrif o fodurwyr yn parchu'r gwaith pwysig y mae staff patrôl croesfan ysgol yn ei wneud yn helpu plant i gerdded i'r ysgol ac yn ôl ar ddechrau ac ar ddiwedd bob dydd. Mewn rhai achosion, gall nifer fach o fodurwyr fod yn ddifeddwl ac anwybyddu staff patrôl croesfan ysgol pan maen nhw'n camu allan i'r ffordd i helpu plant i groesi. Yn amlwg, mae hyn yn bryder; a gobeithiwn y bydd y cynllun peilot hwn - y cyntaf o'i fath yng Nghymru - yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i barchu staff patrôl croesfan ysgol a'r gwaith pwysig y maen nhw'n ei wneud."

Bydd unrhyw dystiolaeth o droseddau moduro a fydd yn cael eu dal ar y camera yn cael ei chyflwyno i Heddlu Gogledd Cymru trwy Operation Snap - ymgyrch a lansiwyd y llynedd i amlygu gyrru peryglus. Gellir cyflwyno clipiau sy'n cael eu dal ar gamerâu bordiau blaen trwy'r wefan, a chânt eu gwylio i weld a oes digon o dystiolaeth i erlyn.

Canlyniadau Ymgyrch Gwregysau Diogelwch Cymru Gyfan

Arweiniodd Heddlu Dyfed-Powys yr ymgyrch yn rhybuddio gyrwyr eu bod nhw'n rhoi eu bywydau mewn perygl trwy beidio â gwisgo gwregysau diogelwch, a bod yn fwy llym wrth ymdrin â modurwyr a theithwyr sy'n gwrthod gwisgo gwregys diogelwch. Gall peidio â gwisgo gwregys diogelwch fod yn benderfyniad angheuol, hyd yn oed ar deithiau byr, cyfarwydd, ac ar gyflymderau araf. Fel gyrrwr, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod teithwyr o dan 14 oed yn gwisgo gwregys diogelwch, neu'n defnyddio'r math cywir o ataliad plentyn ar gyfer taldra ac oedran.

Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y ffyrdd yn hollol ymwybodol o ganlyniadau posibl peidio â gwisgo gwregys diogelwch, mae swyddogion yr heddlu ledled Cymru wedi dod yn fwy llym o ran y rheiny sy'n parhau i anwybyddu'r gyfraith a pheryglu holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

Yn ystod yr ymgyrch pythefnos o hyd, daliwyd cyfanswm o 854 o yrwyr ym mhob rhan o Gymru yn peidio â gwisgo gwregys diogelwch:

Heddlu Dyfed-Powys – 400; Heddlu Gwent – 170; Heddlu Gogledd Cymru – 9; Heddlu De Cymru – 275

Dywedodd Susan Storch, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru:

"Gyda phlant a phobl ifanc yn dysgu'n uniongyrchol oddi wrth oedolion, byddai Diogelwch Ffyrdd Cymru yn apelio ar y gyrwyr a'r teithwyr hynny ledled Cymru sy'n parhau i ddiystyru'r gyfraith ynghylch gwisgo gwregys diogelwch i ailystyried eu hagwedd a'u hymddygiad. Mae diogelu eich hun ac anfon y neges gywir i bobl eraill yn rhywbeth syml a allai achub bywydau. Beth bynnag yw'r daith, gwnewch y peth cywir a gwisgwch wregys diogelwch."

Arweiniad Diweddaredig ar gyfer Meddygon ynghylch Hysbysu Ffitrwydd i Yrru

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cyflwyno arweiniad newydd ar gyfrinachedd ac wedi diweddaru'r egwyddorion penodol ar asesu ffitrwydd claf i yrru ac adrodd pryderon i'r DVLA.

Cyfrifoldeb meddyg yw esbonio i'r claf fod ganddo/ganddi gyflwr meddygol neu y bydd yn derbyn triniaeth a all effeithio ar ei allu i yrru, a bod gan feddyg rwymedigaeth gyfreithiol i hysbysu'r DVLA neu'r DVA, ac i stopio gyrru. Cyfrifoldeb cyfreithiol y gyrrwr yw hysbysu'r awdurdodau am y cyngor hwn ac mae'n drosedd i'r gyrrwr fethu â gwneud hynny. Fodd bynnag, dylai meddyg ddweud wrth y claf efallai y bydd yn gorfod datgelu gwybodaeth feddygol berthnasol i'r DVLA neu'r DVA os bydd yn parhau i yrru yn groes i gyngor. Ceir manylion llawn yma.

Cruz Cymru 2017

Ddydd Sadwrn, 3 Mehefin 2017, lansiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddigwyddiad newydd ar gae Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-muallt. Roedd diwyddiad cyntaf erioed Cruz Cymru yn llwyddiant mawr, yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr ffyrdd, y gwasanaethau brys a phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd, i ddod at ei gilydd mewn un man ar yr un pryd; yn ogystal â chaniatáu Clybiau Ceir a phobl frwdfrydig i ddod at ei gilydd i arddangos eu cerbydau mewn ffordd gyfeillgar, gystadleuol. Fe wnaeth yr ymwelwyr fwynhau diwrnod yn llawn hwyl ar gyfer y teulu cyfan. Cefnogwyd y digwyddiad gan asiantaethau eraill, gan gynnwys Ambiwlans St John's, GoSafe, Diogelwch Ffyrdd Cymru a Heddlu Dyfed Powys.

Daeth dros 1000 o ymwelwyr i'r digwyddiad yn ystod y diwrnod, ac arddangoswyd 200 o gerbydau o wahanol glybiau ceir ledled Cymru. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn edrych ymlaen at ei wneud yn ddigwyddiad blynyddol, ac mae eisoes wedi dechrau trefnu Cruz Cymru 2018!



Enillydd y Wobr Gorau yn y Sioe: King of Cool

Pryder Cymunedol : "Gofynnoch chi, Gwnaethom ni"

Er bod GoSafe yn gosod camerâu mewn safleoedd lle mae pobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu, nid ydynt yn credu mewn aros i bobl gael eu hanafu cyn iddynt gymryd camau. Dyna pam mae camerâu symudol hefyd yn gweithredu mewn ardaloedd lle mae cymunedau wedi cwyno bod cerbydau'n goryrru yn peryglu bywydau, ac mae arolwg yn cadarnhau bod problem goryrru wirioneddol.

Bydd un safle newydd yn cael ei orfodi'n fuan yn Rhosesmor yn Sir y Fflint. Mae hyn yn sgil pryderon yn y gymuned. Dangosodd arolwg goryrru bod problem goryrru posibl, ac o ganlyniad, mae safle newydd wedi cael ei greu. Mae saith safle newydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ardal Heddlu De Cymru yn unig. Mae safle diweddar yn Radyr, Caerdydd yn enghraifft dda o bryderon cymunedol yn arwain at orfodi gan GoSafe. Yn anffodus, ar y diwrnod cyntaf o orfodi, cofnodwyd 36 o droseddau goryrru, ond rhagwelir y bydd gorfodi rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardal.

Mae'n hawdd cysylltu â GoSafe os ydych chi'n pryderu am eich ardal chi. Cysylltwch trwy'r wefan GoSafe.org neu ar Twitter @GoSafeCymru

Canllaw O'r Drws i'r Ddesg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllaw gweledol newydd hawdd i'w ddefnyddio i helpu sefydliadau chwarae rhan fwy mewn annog plant i gerdded neu feicio i'r ysgol. Gyda llai na hanner plant Cymru ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i ysgol gynradd, mae'r canllaw 'O'r Drws i'r Ddesg' newydd yn dangos sut gallai datblygwyr tai, swyddogion trafnidiaeth, cynllunwyr, a hyd yn oed yr heddlu, chwarae rôl hanfodol mewn gwneud cerdded a beicio i'r ysgol yn ddewis haws.

Cynhyrchwyd y canllaw mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr o Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol - grŵp aml-asiantaeth sy'n gweithio i wneud cerdded, sgwtera neu feicio y dewis ffordd o fynd i'r ysgol ar gyfer plant Cymru.

Dywedodd Robert Sage, Prif Ymarferydd Hyrwyddo Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Rydym ni eisiau rhoi'r hyder i blant wneud cerdded a beicio yn ddewis cyntaf ar gyfer teithio. Dyna pam yr ydym ni eisoes yn gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo teithio llesol trwy ein cynlluniau Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Ond mae mwy y gallwn ni ei wneud. Caiff rhieni a phlant eu dylanwadu gan nifer o ffactoru wrth benderfynu sut i gyrraedd yr ysgol, gan gynnwys sut y mae'n teimlo i deithio trwy eu cymuned. Bydd y canllaw newydd hwn, 'O'r Drws i'r Ddesg', yn helpu sefydliadau i weithio mewn ffordd gydlynol, ac ystyried eu cyfraniad at wneud cerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddewis diogel, pleserus a phoblogiadd."

Ymunwch â'r sgwrs am beth y gallwch chi ei wneud i helpu mwy o blant i gerdded neu feicio i'r ysgol ar Twitter, gan ddefnyddio #OrDrwsirDdesg (#DoorstepToDesk). I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Amy Davies: amy.davies8@wales.nhs.uk